

# Ymgynghoriad ar geisiadau am naw organeb a addaswyd yn enetig i'w defnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid

**Dyddiad lansio:** 30 Tachwedd 2021

**Ymateb erbyn:** 25 Ionawr 2022

## I bwy bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

- Gwneuthurwyr bwyd anifeiliaid, mewforwyr/allforwyr a manwerthwyr
- Pob prynwr bwyd anifeiliaid, gan gynnwys ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ac anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd
- Cyrff masnach sy'n cynrychioli rhanddeiliaid mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, amaethyddiaeth a'r amgylchedd
- Undebau llafur sy'n cynrychioli rhanddeiliaid yn y diwydiant ffermio
- Sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr mewn cadwyni bwyd a bwyd anifeiliaid
- Awdurdodau gorfodi

Mae rhestr o bartïon sydd â buddiant wedi'i chynnwys yn [Atodiad A](#).

## Pwnc a phwrpas yr ymgynghoriad

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio safbwyntiau, sylwadau ac adborth rhanddeiliaid mewn perthynas â'r ceisiadau am gynnyrch wedi'i reoleiddio a ystyrir yn y ddogfen hon, sydd wedi'u cyflwyno i'w hawdurdodi. Gofynnwn i randdeiliaid ystyried unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir (*retained*) a ffactorau dilys eraill (tystiolaeth arall sy'n cefnogi dadansoddiad risg clir, rhesymol, a chyfiawnadwy fel buddiannau defnyddwyr, dichonoldeb technegol a ffactorau amgylcheddol) y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) wedi nodi eu bod yn berthnasol i'r ceisiadau hyn. Dyma gyfle rhanddeiliaid i leisio eu barn am y cyngor a roddwyd i Weinidogion i lywio penderfyniadau.

Bydd safbwyntiau terfynol yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ynghyd â'r safbwyntiau a gesglir trwy'r ymgynghoriad hwn, yn cael eu hystyried ochr yn ochr â barn Swyddogion y Llywodraethau Datganoledig yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, ac adrannau eraill Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) heblaw'r ASB er mwyn llywio penderfyniadau Gweinidogion o ran a ddylid awdurdodi'r organebau unigol a addaswyd yn enetig (GMOs) i'w defnyddio yng Nghymru, yr Alban, a Lloegr.

Bydd ymgynghoriad cyfochrog yn cael ei gyhoeddi gan Safonau Bwyd yr Alban.

## Sut mae ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

E-bost: [RPconsultations@food.gov.uk](mailto:RPconsultations@food.gov.uk)

Enw: Y Tîm Cymeradwyo Cynhyrchion wedi'u Rheoleiddio

Is-adran/Cangen: Yr Uned Polisi Diogelwch Cemegol

## Manylion yr ymgynghoriad

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad, mae'r ceisiadau a gynhwysir yn y ddogfen hon wedi'u cyflwyno i'w hawdurdodi.

Mae naw GMO wedi'u cyflwyno i'w hawdurdodi ym mhob un o wledydd Prydain Fawr, lle caiff y penderfyniad o ran awdurdodi ei wneud gan y Gweinidogion priodol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Dyma swyddogaeth a gyflawnid yn flaenorol ar lefel yr Undeb Ewropeaidd (UE). Ers diwedd y cyfnod pontio, cyfrifoldeb yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw asesu diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn y DU, a chyfrifoldeb yr awdurdod priodol perthnasol yw awdurdodi cynhyrchion wedi'u rheoleiddio ym mhob un o wledydd Prydain Fawr.

Mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, mae Cyfraith Bwyd yr UE ar GMOs yn dal i fod yn berthnasol o dan delerau cyfredol Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon (NIP). Mae hyn yn golygu bod angen awdurdodi GMOs o dan weithdrefnau awdurdodi'r UE cyn eu rhoi ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon.

Ystyrir pob cais mewn atodiad ar wahân, gan gynnwys rhif ID y cynnyrch wedi'i reoleiddio a theitl y cais (CTRL+Clic i ddilyn y ddolen):

Atodiad A: Rhestr o bawb sydd â buddiant	10
Atodiad B RP476 – indrawn MIR604 (adnewyddiad)	11
Atodiad C: RP526 – indrawn MZIR098 (cais newydd)	14
Atodiad D: RP535 – Indrawn MON 87427 × MON 89034 × MIR162 × NK603 a'i is-gyfuniadau (cais newydd)	17
Atodiad E: RP606 – Indrawn MON 87427 × MON 89034 × MIR162 × MON 87411 a'i is-gyfuniadau (cais newydd)	20
Atodiad F: RP607 – Ffa soia MON 87751 × MON 87701 × MON 87708 × MON 89788 (cais newydd)	23
Atodiad G: RP620 – indrawn Bt11 (adnewyddiad)	26
Atodiad H: RP714 – Indrawn MON 87427 × MON 87460 × MON 89034 × MIR162 × NK603 a'i is-gyfuniadau (cais newydd)	29
Atodiad I: RP715 – indrawn MON 88017 (adnewyddiad)	32

## Cyflwyniad

Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban wedi bod yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod safonau uchel y DU o ran diogelwch bwyd a diogelu defnyddwyr yn cael eu cynnal wedi ymadawiad y DU â'r UE. Mae ceisiadau cynnyrch wedi'i reoleiddio ar gyfer marchnad Prydain Fawr, gan gynnwys GMOs, bellach yn destun proses dadansoddi risg y DU, gyda'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban yn parhau i roi cyngor i Weinidogion ar faterion diogelwch bwyd.

Mae GMOs yn blanhigion ac anifeiliaid y mae eu cyfansoddiad genetig wedi'i addasu gan ddefnyddio technegau biotechnoleg. Mae addasu genetig yn galluogi gwyddonwyr i gynhyrchu planhigion, anifeiliaid a micro-organebau sydd â nodweddion penodol. Mae bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig yn cynnwys GMOs, neu yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio GMOs.

Er mwyn cael awdurdodiadau newydd, neu adnewyddu awdurdodiadau, ar gyfer GMOs i'w rhoi ar farchnad Prydain Fawr, rhaid cyflwyno cais yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#).

Wedi ymgynghori, cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion perthnasol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr wneud penderfyniadau am awdurdodi (gan roi gwybod o hyd i Weinidogion yng Ngogledd Iwerddon), gan ystyried safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, unrhyw ddarpariaethau perthnasol cyfraith yr UE a ddargedwir, ac unrhyw ffactorau dilys eraill. Rhoddir manylion y GMOs unigol yn yr atodiadau. Cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion, yn amodol ar y safbwyntiau a gesglir yn yr ymgynghoriad, fydd awdurdodi'r GMOs hyn ar y telerau arfaethedig fel y'u hamlinellir yn safbwyntiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban.

Yn unol â chyfrifoldeb yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i roi cyngor i Weinidogion o ran materion diogelwch bwyd, neu fuddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd (adran 6, Deddf Safonau Bwyd 1999), rydym ni wedi nodi ffactorau a allai lywio penderfyniadau Gweinidogion. Mae amlinelliadau'r ffactorau hyn hefyd yn ystyried effaith unrhyw benderfyniad a wneir yn y pen draw gan Weinidogion, p'un ai penderfyniad i awdurdodi ai peidio yw hwnnw. Gwahoddir rhanddeiliaid i fachu'r cyfle hwn i roi sylwadau

ar y ffactorau hyn neu dynnu sylw at unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu dwyn i sylw Gweinidogion cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Mae Gweinidogion ym mhob un o'r pedair gwlad wedi cytuno i [fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid](#). Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i ddatblygu o dan yr ymrwymadau i weithio ar y cyd ar draws y pedair gwlad a nodir yn y fframwaith hwn. O'r herwydd, mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i ddatblygu trwy fforymau traws-lywodraethol gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth yr Alban. Mae cynnwys yr ymgynghoriad hwn yn cynrychioli safbwyntiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban a'r ffactorau maent wedi nodi eu bod yn berthnasol i'r ceisiadau hyn. Cytunir ar gyngor terfynol gan y pedair gwlad cyn ei gyflwyno i Weinidogion.

## Effeithiau

Fel rhan o'r broses dadansoddi risg, mae'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi asesu'r effeithiau a fyddai'n deillio o awdurdodi'r GMOs hyn, pe bai Gweinidogion yn penderfynu eu hawdurdodi. Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r cynigion nodi unrhyw effeithiau sylweddol. Roedd yr effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys y rheiny a gafodd eu nodi amlaf fel effeithiau posib wrth gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (e.e., Gwaith Cyflenwi Awdurdodau Lleol, Iechyd, yr Amgylchedd, Twf, Arloesi, Masnach, Cystadleuaeth, Buddiannau Defnyddwyr, neu Fusnesau Bach a Micro). Yn gyffredinol, dylai awdurdodi'r cynhyrchion hyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector.

O dan y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, mae Gogledd Iwerddon yn parhau i gymryd rhan lawn yn y prosesau dadansoddi risg sy'n ymwneud â diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae hyn yn adlewyrchu rôl annatod Gogledd Iwerddon yn y DU ac yn sicrhau bod unrhyw benderfyniad a wneir yn ystyried yn llawn yr effeithiau posibl ar y DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r GMOs a gynhwysir yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotoocol Gogledd Iwerddon. Gan hynny, bydd awdurdodi ym mhob un o wledydd Prydain Fawr yn gwarchod rhag gwahaniaethau o fewn y DU.

### **Buddiannau defnyddwyr:**

Mae gan yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban rôl unigryw fel adran anweinidogol o'r llywodraeth sy'n gofalu am fuddiannau defnyddwyr o ran bwyd. Rydym ni'n buddsoddi mewn ymchwil defnyddwyr fel bod gennym dystiolaeth am ymddygiad, dealltwriaeth a dewisiadau defnyddwyr i lywio penderfyniadau polisi.

Mae ein harolwg ymchwil gymdeithasol blaenllaw, [Bwyd a Chi 2](#), sydd hefyd yn Ystadegyn Swyddogol, yn rhoi'r gallu i ni ddadansoddi cronfa ddata sampl fawr o ymddygiad, agweddau a phryderon defnyddwyr bob yn ail flwyddyn.

Yn ein harolwg *Tracio Agweddau'r Cyhoedd*, rydym ni'n holi defnyddwyr am y materion sy'n destun pryder iddynt, ac yn [cyhoeddi'r canlyniadau](#). Mae bwyd a addaswyd yn enetig yn un o'r materion a restrir. Caiff hwn ei gynnal hefyd gan Safonau Bwyd yr Alban gyda'r arolwg [Food in Scotland Consumer Tracker](#).

Rydym ni wedi cynnal ymchwil benodol ar [Agweddau Defnyddwyr tuag at Dechnolegau sy'n Dod i'r Amlwg](#), a oedd yn cynnwys bwydydd a addaswyd yn enetig.

Rydym hefyd yn dilyn arolygon defnyddwyr eraill fel The British Social Attitudes Survey, sydd hefyd wedi holi am agweddau tuag at gynhyrchu bwyd a addaswyd yn enetig. Gellir gweld yr ymatebion o ran bwyd a addaswyd yn enetig yn yr adran 'Gwyddoniaeth' yn yr [36ain adroddiad blynyddol](#).

## Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

Cyhoeddir manylion yr holl geisiadau a ddilyswyd am gynhyrchion wedi'u rheoleiddio ar y Gofrestr Ceisiadau am Gynhyrchion wedi'u Rheoleiddio ar [wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd](#).

Gwahoddir rhanddeiliaid i ystyried y cwestiynau a ofynnir isod mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, a ffactorau dilys eraill.

Yn dilyn y broses ymgynghori bydd ymatebion yn cael eu cyhoeddi, a byddant ar gael i rhanddeiliaid a Gweinidogion.

### Cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

1. A oes gennych chi unrhyw bryderon am ddiogelwch y cynhyrchion/digwyddiadau sydd heb gael eu hystyried isod mewn perthynas â'r defnyddwyr, rhanddeiliaid neu effeithiau bwriadedig?
2. A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu bryderon am yr effeithiau wrth ystyried awdurdodi, neu beidio ag awdurdodi, GMOs unigol, ac os ydych chi o blaid awdurdodi, delerau awdurdodi'r GMOs (fel y'u hamlinellir yn safbwyntiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban)?
3. A oes unrhyw ffactorau eraill y dylai Gweinidogion eu hystyried sydd heb eu hamlygu?
4. A oes gennych chi unrhyw adborth arall?

## Ymatebion

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am 8 wythnos. Mae angen i ymatebion ddod i law erbyn 25 Ionawr 2022. Nodwch a ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli), ac ym mha wlad rydych wedi'ch lleoli.

Cyhoeddir yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd cyn pen 12 wythnos i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Nodwch pa gais/ceisiadau/cynnyrch/cynhyrchion rydych chi'n ymateb yn eu cylch trwy ddefnyddio'r llinell bwnc ganlynol ar gyfer eich ymateb:

*Ymateb i ymgynghoriad [nodwch rif(au) y cynnyrch wedi'i reoleiddio]*

**Anfonwch ymateb i [RPconsultations@food.gov.uk](mailto:RPconsultations@food.gov.uk)**

I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer Ymgynghoriadau, sydd i'w gael fan hyn:

<https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/hysbysiad-preifatrwydd-ymgynghoriadau>.

Rhennir ymatebion gyda Safonau Bwyd yr Alban.

## Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi](#).

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,



Sabrina Roberts

Cynghorydd Polisi Bwyd wedi'i Addasu'n Enetig

Yr Uned Polisi Diogelwch Cemegol

## **Atodiad A: Rhestr o bawb sydd â buddiant**

Cysylltir yn uniongyrchol â chymdeithasau masnach rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiant sylweddol mewn GMOs ar draws y sector ehangach, ac a gynrychiolir ar draws pedair gwlad y DU, er mwyn cael eu hadborth am yr ymgynghoriad hwn:

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

Y Cyngor Biotechnoleg Amaethyddol

Y Gymdeithas Masnach Grawn a Bwyd Anifeiliaid

Cyddfederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol

Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Bwyd Anifeiliaid Anwes

Cymdeithas Masnach Marchogaeth Prydain

Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Ychwanegion ac Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid Prydain

Nid rhestr gynhwysfawr yw hon.

## Atodiad B RP476 – indrawn MIR604 (adnewyddiad)

### Cefndir

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad, mae cais RP476 wedi'i gyflwyno ar gyfer asesu indrawn a addaswyd yn enetig MIR604, a hynny er mwyn adnewyddu awdurdodiad i'w ddefnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae Digwyddiad MIR604 yn indrawn (*maize*) a addaswyd yn enetig er mwyn ei gynysgaeddu â'r gallu i'w amddiffyn ei hun rhag pryf gwraidd (*rootworm*) Yd y Gorllewin a phryf gwraidd Yd y Gogledd yn y maes, a rhywogaethau chwilennol eraill cysylltiedig. Mae hefyd yn mynegi protein marcio, ffosfomannos isomeras (PMI), sy'n galluogi'r planhigion i ddefnyddio mannos fel ffynhonnell garbon.

Mae MIR604 (Dynodwr Unigryw: *SYN-IR6Ø4-5*) yn indrawn a addaswyd yn enetig i'w gynysgaeddu â'r gallu i'w amddiffyn ei hun rhag pryfed gwraidd yr yd yn y maes.

Y genyn cry3A o godau *Bacillus thuringiensis* (Bt) ar gyfer tocsin Bt (Cry3A), sy'n cynysgaeddu ymwrthedd rhag pryf gwraidd yd y gorllewin (*Diabrotica virgifera virgifera*) a phryf gwraidd yd y gogledd (*D. longicornis barberi*) a rhywogaethau chwilennol eraill cysylltiedig.

Mae mynegiant y genyn PMI o'r bacteriwm *Escherichia coli* yn galluogi'r planhigion i ddefnyddio mannos fel ffynhonnell garbon trwy gynhyrchu'r protein PMI, ac fe'i defnyddir fel marciwr detholadwy.

Yn rhifyn mis Rhagfyr 2009 Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, roedd Penderfyniad y Comisiwn 2009/866/CE wedi awdurdodi rhoi indrawn a addaswyd yn enetig MIR604 (SYN-IR6Ø4-5) ar y farchnad am gyfnod dilysrwydd o 10 mlynedd. Cymhwyswyd adnewyddiad indrawn a addaswyd yn enetig MIR604 (SYN-IR6Ø4-5) gan ddeiliad yr awdurdodiad i gynnal yr awdurdodiad am gyfnod 10 mlynedd pellach.

### Telerau awdurdodi arfaethedig

Mae'r safbwynt yn nodi bod yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Amlinellir y telerau awdurdodi

arfaethedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae'r safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny.

## **Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir**

Dulliau dadansoddol

- Mae'r rhain wedi'u gwirio gan y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) fel y'u defnyddir i ganfod a rheoli indrawn MIR604. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)

Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus. Nid yw adnewyddu awdurdodiad indrawn a addaswyd yn enetig MIR604 wedi newid ei statws cyfredol o ran gofynion labelu gorfodol ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig.
- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch labelu a'r gallu i olrhain organebau a addaswyd yn enetig, a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio organebau a addaswyd yn enetig, ceir gofyniad o ran labelu a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o ffynonellau a addaswyd yn enetig, ni waeth beth yw presenoldeb deunydd genetig newydd canfyddadwy yn y cynnyrch terfynol, neu swm cynhwysyn a addaswyd yn enetig sy'n fwriadol bresennol.
- Yn achos cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, rhaid i'r geiriau 'This product contains genetically modified organisms' neu 'This product contains genetically modified maizeymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn gael eu harddangos yn glir yn union wrth ymyl y cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw SYN-IR6Ø4-5 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

## **Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau**

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau awdurdodi arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau awdurdodi arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Rydym ni wedi tynnu sylw at fuddiannau defnyddwyr [ym mhrif destun y ddogfen hon](#).

Mae'r GMO wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotoocol Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)

## Atodiad C: RP526 – indrawn MZIR098 (cais newydd)

### Cefndir

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad, mae cais RP526 wedi'i gyflwyno ar gyfer asesu indrawn a addaswyd yn enetig MZIR098, a hynny er mwyn cael awdurdodiad newydd i'w ddefnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae Digwyddiad MZIR098 yn indrawn a addaswyd yn enetig a ddatblygwyd i roi gwell amddiffyniad rhag difrod bwydo wedi'i achosi gan blâu chwilenol penodol ar indrawn, ac i gynysgaeddu'r planhigion â'r gallu i oddef chwynladdwyr sy'n cynnwys glwffosinad-amonium.

Mae indrawn MZIR098 (Dynodwr Unigryw: SYN-ØØØ98-3) wedi'i addasu fel ei fod yn gallu goddef y chwynladdwr glwffosinad amonium (glwffosinad), ac fel ei fod wedi'i ddiogelu rhag plâu chwilenol, yn enwedig pryf gwraidd yd y gorllewin (*Diabrotica vigifera vigifera*), pryf gwraidd yd y gogledd (*D. berberi*), a phryf gwraidd yd Mecsico (*D. vigifera zea*).

### Telerau awdurdodi arfaethedig

Mae'r safbwynt yn nodi bod yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Amlinellir y telerau awdurdodi arfaethedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae'r safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny.

### Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Dulliau dadansoddol

- Mae'r rhain wedi'u gwirio gan y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) fel y'u defnyddir i ganfod a rheoli indrawn MZIR098. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)

Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus.

- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch labelu a'r gallu i olrhain organebau a addaswyd yn enetig, a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio organebau a addaswyd yn enetig, ceir gofyniad o ran labelu a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o ffynonellau a addaswyd yn enetig, ni waeth beth yw presenoldeb deunydd genetig newydd canfyddadwy yn y cynnyrch terfynol, neu swm cynhwysyn a addaswyd yn enetig sy'n fwriadol bresennol.
- Yn achos cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, rhaid i'r geiriau 'This product contains genetically modified organisms' neu 'This product contains genetically modified maize' ymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn gael eu harddangos yn glir yn union wrth ymyl y cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw: SYN-ØØØ98-3 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

## **Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau**

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau awdurdodi arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau awdurdodi arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Rydym wedi tynnu sylw at fuddiannau defnyddwyr [ym mhrif destun y ddogfen hon](#).

Mae'r GMO wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)



## **Atodiad D: RP535 – Indrawn MON 87427 × MON 89034 × MIR162 × NK603 a'i is-gyfuniadau (cais newydd)**

### **Cefndir**

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad, mae cais RP 535 wedi'i gyflwyno i'r ASB ar gyfer asesu indrawn a addaswyd yn enetig a'i is-gyfuniadau MON 87427 × MON 89034 × MIR162 × NK603, a hynny er mwyn cael awdurdodiad newydd i'w defnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Cynhyrchir MON 87427 × MON 89034 × MIR162 × NK603 trwy groesi planhigion indrawn sy'n cynnwys MON 87427, MON 89034, MIR162 ac NK603 trwy ddefnyddio dulliau bridio traddodiadol. Gan hynny, etifeddodd y cynnyrch hwn y nodweddion sy'n bresennol yn llinachau'r rhieni, sef y gallu i oddef glyffosad (gan MON 87427 ac NK603), ac amddiffyniad rhag pryfed (gan MON 89034 a MIR162). Cafwyd y llinach indrawn staciedig trwy groesfridio'r organebau rhieiniol MON 87427 × MON 89034 × MIR162 × NK603 trwy ddulliau traddodiadol (Dynodwr Unigryw: *MON-87427-7 x MON-89034-3 x SYN-IR162-4 x MON-00603-6*). Etifeddodd y llinach enynnau sy'n mynegi cry1A.105, cry2Ab2, vip3Aa19 a cp4epsps. Mae mynegiant y genynnau hyn yn cynysgaeddu'r planhigion â'r gallu i oddef chwynladdwyr glyffosad, ac ymwrthedd i Lepidoptera a Coleoptera.

Mae'r is-gyfuniadau yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at ychwanegu unrhyw ddau neu dri chyfuniad o'r pedwar mewnosodiad addasu genetig – MON 87427, MON 89034, MIR162, NK603 – at y cnwd a addaswyd yn enetig.

### **Telerau awdurdodi arfaethedig**

Mae'r safbwynt yn nodi bod yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Amlinellir y telerau awdurdodi arfaethedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae'r safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny.

### **Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir**

Dulliau dadansoddol

- Mae'r rhain wedi'u gwirio gan y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) fel y'u defnyddir i ganfod a rheoli MON 87427 × MON 89034 × MIR162 × NK603. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)

## Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus.
- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch labelu a'r gallu i olrhain organebau a addaswyd yn enetig, a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio organebau a addaswyd yn enetig, ceir gofyniad o ran labelu a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o ffynonellau a addaswyd yn enetig, ni waeth beth yw presenoldeb deunydd genetig newydd canfyddadwy yn y cynnyrch terfynol, neu swm cynhwysyn a addaswyd yn enetig sy'n fwriadol bresennol.
- Yn achos cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, rhaid i'r geiriau 'This product contains genetically modified organisms' neu 'This product contains genetically modified maize' ymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn gael eu harddangos yn glir yn union wrth ymyl y cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw MON-87427-7 x MON-89034-3 x SYN-IR162-4 x MON-ØØ6Ø3-6 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

## **Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau**

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau awdurdodi arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol

â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau awdurdodi arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Rydym wedi tynnu sylw at fuddiannau defnyddwyr [ym mhrif destun y ddogfen hon](#).

Mae'r GMO wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotoocol Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)

## **Atodiad E: RP606 – Indrawn MON 87427 × MON 89034 × MIR162 × MON 87411 a'i is-gyfuniadau (cais newydd)**

### **Cefndir**

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad, mae cais RP 606 wedi'i gyflwyno i'r ASB ar gyfer asesu indrawn a addaswyd yn enetig MON 87427 × MON 89034 × MIR162 × MON 87411 a'i is-gyfuniadau, a hynny er mwyn cael awdurdodiad newydd i'w defnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Cynhyrchir MON 87427 × MON 89034 × MIR162 × MON 87411 trwy groesi planhigion indrawn sy'n cynnwys MON 87427, MON 89034, MIR162 a MON 87411 trwy ddefnyddio dulliau bridio traddodiadol. Gan hynny, etifeddodd y cynnyrch hwn y nodweddion sy'n bresennol yn llinachau'r rhieni, sef y gallu i oddef glyffosad (MON 87427 a MON 87411), ac amddiffyniad rhag pryfed (gan MON 89034, MIR162 a MON 87411).

Cafwyd y llinach indrawn staciedig MON 87427 × MON 89034 × MIR162 × MON 87411 (Dynodwr Unigryw: *MON-87427-7 × MON-89034-3 × SYN-IR162-4 × MON-87411-9*) trwy groesfridio'r organebau rhieiniol gan ddefnyddio dulliau traddodiadol. Etifeddodd y llinach enynnau sy'n mynegi cry1A.105, cry2Ab2, vip3Aa19 a cp4epsps. Mae mynegiant y genynnau hyn yn cynysgaeddu'r planhigion â'r gallu i oddef chwynladdwyr glyffosad, ac ymwrthedd i Lepidoptera a Coleoptera. Mae'r llinach hefyd yn cynnwys casét atal sy'n mynegi dilyniant ailadrodd gwrthdroedig sy'n arwain at ffurfio trawsgrifiad RNA edefyn dwbl (dsRNA) sy'n cynnwys dernyn 240 bp o'r genyn WCR Snf7 (DvSnf7). Mae wedi'i gynllunio i gydweddu â dilyniant pryf gwraidd yd y gorllewin (WCR).

Mae'r is-gyfuniadau yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at ychwanegu unrhyw ddau neu dri chyfuniad o'r pedwar mewnosodiad addasu genetig MON 87427, MON 89034, MIR162, MON 87411 at y cnwd a addaswyd yn enetig.

### **Telerau awdurdodi arfaethedig**

Mae'r safbwynt yn nodi bod yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Amlinellir y telerau awdurdodi arfaethedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae'r safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny.

## Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

### Dulliau dadansoddol

- Mae'r rhain wedi'u gwirio gan y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) fel y'u defnyddir i ganfod a rheoli indrawn a addaswyd yn enetig MON 87427 × MON 89034 × MIR162 × MON 87411 a'i is-gyfuniadau. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)

### Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus.
- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch labelu a'r gallu i olrhain organebau a addaswyd yn enetig, a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio organebau a addaswyd yn enetig, ceir gofyniad o ran labelu a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o ffynonellau a addaswyd yn enetig, ni waeth beth yw presenoldeb deunydd genetig newydd canfyddadwy yn y cynnyrch terfynol, neu swm cynhwysyn a addaswyd yn enetig sy'n fwriadol bresennol.
- Yn achos cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, rhaid i'r geiriau 'This product contains genetically modified organisms' neu 'This product contains genetically modified maize' ymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn gael eu harddangos yn glir yn union wrth ymyl y cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw MON-87427-7 × MON-89034-3 × SYN-IR162-4 × MON-87411-9 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

## **Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau**

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad

bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau awdurdodi arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau awdurdodi arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Rydym wedi tynnu sylw at fuddiannau defnyddwyr [ym mhrif destun y ddogfen hon](#).

Mae'r GMO wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotoocol Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)

## **Atodiad F: RP607 – Ffa soia MON 87751 × MON 87701 × MON 87708 × MON 89788 (cais newydd)**

### **Cefndir**

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad, mae cais RP607 wedi'i gyflwyno i'r ASB ar gyfer asesu ffa soia MON 87751 x MON 87701 x MON 87708 x MON 89788, a hynny er mwyn cael awdurdodiad newydd i'w defnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Stac pedwar digwyddiad yw ffa soia glycin-uchaf a gynhyrchir trwy dulliau croesi confensiynol. Mae'n cynnwys ymwrthedd i lepidoptera (MON 87551, MON 87701), y gallu i oddef deucamba a glyffosad (MON 87708), a'r gallu i oddef glyffosad (MON 89788).

Cafwyd y llinach ffa soia staciedig MON 87751 × MON 87701 × MON 87708 × MON 89788 (Dynodwr Unigryw: *MON-87751-7 x MON-87701-2 x MON-87708-9 x MON-89788-1*) trwy groesfridio'r organebau rhieiniol gan ddefnyddio dulliau confensiynol i gynhyrchu ffa soia sy'n mynegi' r genynnau deucamba monoocsigenas, Cry1Ac, Cry2Ab2, Cry1A.105 ac EPSPS. Disgwylir i fynegiant y genynnau hyn gynysgaeddu'r planhigion ag ymwrthedd i Lepidoptera, a'r gallu i oddef chwynladdwyr deucamba a glyffosad.

### **Telerau awdurdodi arfaethedig**

Mae'r safbwynt yn nodi bod yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Amlinellir y telerau awdurdodi arfaethedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae'r safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny.

### **Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir**

Dulliau dadansoddol

- Mae'r rhain wedi'u gwirio gan y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) fel y'u defnyddir i ganfod a rheoli MON 87751 x MON 87701 x MON 87708 x MON 89788. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)

## Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus.
- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch labelu a'r gallu i olrhain organebau a addaswyd yn enetig, a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio organebau a addaswyd yn enetig, ceir gofyniad o ran labelu a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o ffynonellau a addaswyd yn enetig, ni waeth beth yw presenoldeb deunydd genetig newydd canfyddadwy yn y cynnyrch terfynol, neu swm cynhwysyn a addaswyd yn enetig sy'n fwriadol bresennol.
- Yn achos cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, rhaid i'r geiriau 'Mae'r cynnyrch hwn yn cynnwys organebau a addaswyd yn enetig' neu 'Mae'r cynnyrch hwn yn cynnwys ffa soia a addaswyd yn enetig' ymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn gael eu harddangos yn glir yn union wrth ymyl y cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw MON-87751-7 x MON-87701-2 x MON-87708-9 x MON-89788-1 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

## **Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau**

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau awdurdodi arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n



atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau awdurdodi arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Rydym wedi tynnu sylw at fuddiannau defnyddwyr [ym mhrif destun y ddogfen hon](#).

Mae'r GMO wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brothocol Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)

## Atodiad G: RP620 – indrawn Bt11 (adnewyddiad)

### Cefndir

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad, mae cais RP 620 wedi'i gyflwyno i'r ASB ar gyfer asesu indrawn a addaswyd yn enetig Bt11, a hynny er mwyn adnewyddu awdurdodiad i'w ddefnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae Digwyddiad Bt11 yn indrawn a addaswyd yn enetig a ddatblygwyd i roi gwell amddiffyniad rhag plâu cenadeiniog penodol ar indrawn, ac i gynysgaeddu'r planhigion â'r gallu i oddef chwynladdwyr sy'n cynnwys glwffosinad-amonium. Mae planhigion indrawn Bt11 yn cynnwys y trawsennyn cry1Ab, sy'n amgodio'r protein pryfleiddiol Cry1Ab a'r trawsennyn PAT, sy'n amgodio'r ensym ffosfinothrisin asetyltransfferas (PAT).

Mae indrawn Bt11 (Dynodwr Unigryw: *SYN-BT Ø11-1*) yn indrawn sy'n gallu gwrthsefyll pryfed a goddef chwynladdwyr. Caiff ei gynhyrchu trwy fewnosod y gennyn cry1Ab o *Bacillus thuringiensis subsp. kurstaki* er mwyn cynysgaeddu'r planhigion â'r gallu i wrthsefyll y tyllwr yd (*Ostrinia nubilalis*), a'r gennyn sy'n amgodio ffosfinothrisin N-asetyltransfferas (PAT) o *Streptomyces viridochromogenes* er mwyn cynysgaeddu'r planhigion â'r gallu i oddef chwynladdwyr ffosfinothrisin (PPT), yn benodol glwffosinad amonium.

Yn rhifyn mis Awst 2010 Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, roedd Penderfyniad y Comisiwn 2010/419/UE wedi adnewyddu'r awdurdodiad ar gyfer rhoi indrawn a addaswyd yn enetig Bt11 (*SYN-BT Ø11-1*) ar y farchnad am gyfnod dilysrwydd o 10 mlynedd. Megis yn flaenorol, roedd adnewyddiad indrawn a addaswyd yn enetig Bt11 (*SYN-BT Ø11-1*) wedi'i gymhwyso gan ddeiliad yr awdurdodiad i gynnal yr awdurdodiad am gyfnod 10 mlynedd pellach.

### Telerau awdurdodi arfaethedig

Mae'r safbwynt yn nodi bod yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Amlinellir y telerau awdurdodi arfaethedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae'r safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny.

## Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

### Dulliau dadansoddol

- Mae'r rhain wedi'u gwirio gan y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) fel y'u defnyddir i ganfod a rheoli indrawn Bt11. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)

### Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus. Nid yw adnewyddu awdurdodiad indrawn a addaswyd yn enetig Bt11 wedi newid ei statws cyfredol o ran gofynion labelu gorfodol ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig.
- Yn achos cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, rhaid i'r geiriau 'This product contains genetically modified organisms' neu 'This product contains genetically modified maize' ymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn gael eu harddangos yn glir yn union wrth ymyl y cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw: SYN-BT Ø11-1 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

## **Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau**

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau awdurdodi arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw

ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau awdurdodi arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Rydym wedi tynnu sylw at fuddiannau defnyddwyr [ym mhrif destun y ddogfen hon](#).

Mae'r GMO wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotoocol Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)

## **Atodiad H: RP714 – Indrawn MON 87427 × MON 87460 × MON 89034 × MIR162 × NK603 a'i is-gyfuniadau (cais newydd)**

### **Cefndir**

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad, mae cais RP 714 wedi'i gyflwyno i'r ASB ar gyfer asesu indrawn a addaswyd yn enetig MON 87427 × MON 87460 × MON 89034 × MIR162 × NK603 a'i is-gyfuniadau, a hynny er mwyn cael awdurdodiad newydd i'w defnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Cynhyrchir MON 87427 × MON 87460 × MON 89034 × MIR162 × NK603 trwy groesi planhigion indrawn sy'n cynnwys MON 87427, MON 87460, MON 89034, MIR162 ac NK603 trwy ddefnyddio dulliau bridio traddodiadol. Gan hynny, mae'r cynnyrch hwn wedi etifeddu'r nodweddion sy'n bresennol yn llinachau'r rhieni.

Cynhyrchwyd yr indrawn stac pum digwyddiad MON 87427 × MON 87460 × MON 89034 × MIR162 × NK603 (Dynodwr Unigryw: *MON-87427-7 × MON-87460-4 × MON-89034-3 × SYN-IR162-4 × MON-00603-6*) trwy groesfridio confensiynol i gyfuno pum digwyddiad indrawn unigol: MON 87427 (sy'n mynegi'r protein synthas 5-enolpyrwyfysicimad-3-ffosffad (CP4 EPSPS)); MON 87460 (sy'n mynegi'r protein sioc oeri B (CSPB) a neomycin ffosffotransfferas II (NPTII)); MON 89034 (sy'n mynegi'r proteinau Cry1A.105 a Cry2Ab2); MIR162 (sy'n mynegi'r proteinau Vip3Aa20 a ffosffomannos isomeras (PMI)); ac NK603 (sy'n mynegi'r protein CP4 EPSPS, a'r amrywiolyn CP4 EPSPS L214P) i gynysgaeddu'r planhigion â'r gallu i wrthsefyll plâu cenadeiniog penodol, a'r gallu i oddef sychder a chwynladdwyr sy'n cynnwys glyffosad.

Mae'r is-gyfuniadau yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at ychwanegu unrhyw ddau neu dri chyfuniad o'r pedwar mewnosodiad addasu genetig – MON 87427, MON 87460, MON 89034, MIR162, NK603 – at y cnwd a addaswyd yn enetig.

### **Telerau awdurdodi arfaethedig**

Mae'r safbwynt yn nodi bod yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Amlinellir y telerau awdurdodi arfaethedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae'r safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny.

## Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

### Dulliau dadansoddol

- Mae'r rhain wedi'u gwirio gan y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) fel y'u defnyddir i ganfod a rheoli indrawn a addaswyd yn enetig MON 87427 × MON 87460 × MON 89034 × MIR162 × NK603 a'i is-gyfuniadau. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)

### Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus.
- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch labelu a'r gallu i olrhain organebau a addaswyd yn enetig, a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio organebau a addaswyd yn enetig, ceir gofyniad o ran labelu a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o ffynonellau a addaswyd yn enetig, ni waeth beth yw presenoldeb deunydd genetig newydd canfyddadwy yn y cynnyrch terfynol, neu swm cynhwysyn a addaswyd yn enetig sy'n fwriadol bresennol. Yn achos cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, rhaid i'r geiriau 'This product contains genetically modified organisms' neu 'This product contains genetically modified maize' ymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn gael eu harddangos yn glir yn union wrth ymyl y cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw MON-87427-7 × MON-87460-4 × MON-89034-3 × SYN-IR162-4 × MON-ØØ6Ø3-6 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

## **Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau**

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai

Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau awdurdodi arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau awdurdodi arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Rydym wedi tynnu sylw at fuddiannau defnyddwyr [ym mhrif destun y ddogfen hon](#).

Mae'r GMO wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brothocol Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)

## Atodiad I: RP715 – indrawn MON 88017(adnewyddiad)

### Cefndir

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad, mae cais RP 715 wedi'i gyflwyno i'r ASB ar gyfer asesu indrawn a addaswyd yn enetig MON 88017 a'i is-gyfuniadau, a hynny er mwyn adnewyddu awdurdodiad i'w defnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae MON 88017 yn darparu amddiffyniad rhag plâu chwilenol penodol, a'r gallu i oddef chwynladdwyr glyffosad trwy fynegiant y proteinau Cry3Bb1 a CP4 EPSPS ill dau.

Cynhyrchwyd y llinach indrawn sy'n gallu gwrthsefyll pryf gwraidd yr yd MON88017 (Dynodwr Unigryw: MON-88Ø17-3) trwy ddefnyddio technegau ailgyfuno DNA i fynegi'r gennyn cry3Bb1 sy'n amgodio'r protein pryfleiddiol, sy'n effeithio ar rywogaethau chwilenol yn benodol, o *Bacillus thuringiensis (subsp. kumamotoensis)* er mwyn rheoli pryf gwraidd yr yd, a'r gennyn cp4 o'r straen bacteriw pridd *Agrobacterium ssp.* CP4.

Yn rhifyn mis Tachwedd 2009 Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, roedd Penderfyniad y Comisiwn 2009/814/CE wedi awdurdodi rhoi indrawn a addaswyd yn enetig MON88017 (MON-88Ø17-3) ar y farchnad am gyfnod dilysrwydd o 10 mlynedd. Cymhwyswyd adnewyddiad indrawn a addaswyd yn enetig MON88017 (MON-88Ø17-3) gan ddeiliad yr awdurdodiad i gynnal yr awdurdodiad am gyfnod 10 mlynedd pellach.

### Telerau awdurdodi arfaethedig

Mae'r safbwynt yn nodi bod yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Amlinellir y telerau awdurdodi arfaethedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae'r safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny.

### Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Dulliau dadansoddol

- Mae'r rhain wedi'u gwirio gan y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) fel y'u defnyddir i ganfod a rheoli indrawn MON 88017. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)



## Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus. Nid yw adnewyddu awdurdodiad indrawn a addaswyd yn enetig MON 88017 wedi newid ei statws cyfredol o ran gofynion labelu gorfodol ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig.
- Yn achos cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, rhaid i'r geiriau 'This product contains genetically modified organisms' neu 'This product contains genetically modified maize' ymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn gael eu harddangos yn glir yn union wrth ymyl y cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw: MON-88Ø17-3 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

## **Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau**

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau awdurdodi arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau awdurdodi arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn

cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Rydym wedi tynnu sylw at fuddiannau defnyddwyr [ym mhrif destun y ddogfen hon](#).

Mae'r GMO wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan BroTOCOL Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori](#).

## Atodiad J: RP716 – Indrawn MON 89034 (adnewyddiad)

### Cefndir

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad, mae cais RP 716 wedi'i gyflwyno i'r ASB ar gyfer asesu indrawn a addaswyd yn enetig MON 89034 a'i is-gyfuniadau, a hynny er mwyn adnewyddu awdurdodiad i'w defnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae MON 89034 yn darparu amddiffyniad rhag plâu cenadeiniog penodol trwy fynegiant y proteinau Cry1A.105 a Cry2Ab2.

Mae'r llinach indrawn MON 89034 (Dynodwr Unigryw: *MON-89Ø34-3*) yn mynegi'r ddau docsin Bt sydd wedi'u hamgodio gan y genynnau cry1A.105 a cry2Ab2 o *Bacillus thuringiensis* sy'n cynysgaeddu'r planhigion â'r gallu i wrthsefyll plâu cenadeiniog penodol, fel rhywogaethau'r brithyn (*Spodoptera sp.*), dart tywyll (*Agrotis ipsilon*), y tyllwr yd (*Ostrinia nubilalis*) a gwyfyn melynwellt yr yd (*Helicoverpa zea*).

Yn rhifyn mis Tachwedd 2009 Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, roedd Penderfyniad y Comisiwn 2009/813/CE wedi awdurdodi rhoi indrawn a addaswyd yn enetig MON 89034 (MON-89Ø34-3) ar y farchnad am gyfnod dilysrwydd o 10 mlynedd. Cymhwyswyd adnewyddiad indrawn a addaswyd yn enetig MON 89034 (MON-89Ø34-3) gan ddeiliad yr awdurdodiad i gynnal yr awdurdodiad am gyfnod 10 mlynedd pellach.

### Telerau awdurdodi arfaethedig

Mae'r safbwynt yn nodi bod yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Amlinellir y telerau awdurdodi arfaethedig yn safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ac mae'r safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch hwn yn ddiogel i'w awdurdodi ar y telerau hynny.

### Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Dulliau dadansoddol

- Mae'r rhain wedi'u gwirio gan y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) fel y'u defnyddir i ganfod a rheoli indrawn MON 89034. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)

## Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus. Nid yw adnewyddu awdurdodiad indrawn a addaswyd yn enetig MON 89034 wedi newid ei statws cyfredol o ran gofynion labelu gorfodol ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig.
- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch labelu a'r gallu i olrhain organebau a addaswyd yn enetig, a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio organebau a addaswyd yn enetig, ceir gofyniad o ran labelu a'r gallu i olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o ffynonellau a addaswyd yn enetig, ni waeth beth yw presenoldeb deunydd genetig newydd canfyddadwy yn y cynnyrch terfynol, neu swm cynhwysyn a addaswyd yn enetig sy'n fwriadol bresennol. Yn achos cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, rhaid i'r geiriau 'This product contains genetically modified organisms' neu 'This product contains genetically modified maize' ymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn gael eu harddangos yn glir yn union wrth ymyl y cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw: MON-89Ø34-3 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

## **Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau**

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau awdurdodi arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n

atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi ar y telerau awdurdodi arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon. Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Rydym wedi tynnu sylw at fuddiannau defnyddwyr [ym mhrif destun y ddogfen hon](#).

Mae'r GMO wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brothocol Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)